**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**National Assembly for Wales**
Communities, Equality and Local Government Committee

**Ken Skates AC**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

2 Tachwedd 2015


Annwyl Weinidog

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17**

Hoffwn eich gwahodd i gyfarfod o'r Pwyllgor ddydd Iau 21 Ionawr 2016 i roi tystiolaeth mewn cysylltiad â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17.

Disgwylir i'r sesiwn dystiolaeth bara awr, gan ddechrau am 10.45. Cynhelir y cyfarfod yn Ystafell Bwyllgora 2 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu papur dwyieithog i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft erbyn **dydd Mercher 6 Ionawr**. Byddai'r Pwyllgor yn arbennig o ddiolchgar o gael gwybodaeth am y materion cyllidebol a amlygir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Yn gywir



**Christine Chapman AC**

Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCCLLL@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCCLLL
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCELG@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCELG
0300 200 6565

**Atodiad**

**Cais gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ddarparu gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft 2016-17**

***Cyflwyno'r gyllideb***

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi croesawu'r gwelliannau a wnaed i'r dull o gyflwyno'r gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf, ac wedi argymell y dylai'r gwaith barhau er mwyn sicrhau bod dyraniadau'r gyllideb yn cyd-fynd mewn ffordd fwy eglur fyth ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

Fel y llynedd, hoffai'r Pwyllgor gael y llinellau gwariant unigol sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn, ar gyfer eich portffolio chi.

***Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu***

O ran yr ymrwymiadau yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru sydd o fewn eich portffolio chi ac sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael gwybodaeth mewn cysylltiad â'r canlynol:

- manylion am y costau sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer cyfnod y gyllideb ddrafft a/neu unrhyw waith sy'n cael ei wneud i asesu costau o'r fath;
- a ellir cyflawni'r ymrwymiadau hyn o fewn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y portffolio a manylion am unrhyw feysydd lle mae fforddiadwyedd yn destun pryder; a
- gwybodaeth ynglŷn â sut y bwriedir monitro a gwerthuso'r graddau y llwyddwyd i gyflawni'r ymrwymiadau yn eich portffolios, a'r canlyniadau cysylltiedig, er mwyn dangos gwerth am arian.

***Polisïau allweddol***

Yn dilyn ei waith craffu ar y gyllideb ddrafft y llynedd, hoffai'r Pwyllgor gael gwybodaeth am y canlynol yn benodol:

- cyn penderfynu ar ddyraniadau'r gyllideb, gwybodaeth am natur y ddeialog a gawsoch â'r sefydliadau a'r rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am weithredu polisïau o fewn eich portffolio;
- sut yr effeithiwyd ar y dyraniadau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn sgil rhoi'r Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol ar waith, a gwybodaeth ynglŷn

â'r cysylltiad rhwng hyn a chanlyniadau'r Strategaeth hyd yma a'i chanlyniadau yn y dyfodol;

- sut yr effeithiwyd ar y dyraniadau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn sgil gweithredu'r darpariaethau o fewn Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru);
- manylion ynglŷn â sut y penderfynwyd ar y dyraniadau ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- gwybodaeth am lefel y cyllid a ddarperir i weithredu'r strategaeth *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* a *Strategaeth Amgueddfeydd Cymru*, gan gynnwys y cysylltiad rhwng hyn a chanlyniadau'r strategaethau hyd yma a'u canlyniadau yn y dyfodol;
- sut y mae argymhellion yr adolygiad arbenigol diweddar o'r ddarpariaeth amgueddfeydd wedi dylanwadu ar y dyraniadau sy'n ymwneud â'r sector amgueddfeydd;
- sut y mae'r angen parhaus i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n rhwystro pobl rhag cyfranogi yn y celfyddydau, ac i hyrwyddo cyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau, wedi effeithio ar ddyraniadau cyllideb ar gyfer y celfyddydau;
- blaenoriaethau ar gyfer polisi'r cyfryngau a darlledu yng Nghymru, a sut y caiff y rhain eu hadlewyrchu yn nyraniadau'r gyllideb;
- y wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith benodol a gafwyd hyd yma yn sgil y gostyngiadau diweddar yn lefelau cyllid Cyngor Llyfrau Cymru;
- o ystyried pryderon y Pwyllgor y llynedd am y gostyngiad yn lefelau refeniw'r Maes Rhaglenni Gwariant chwaraeon a gweithgarwch corfforol, y wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith a gafwyd hyd yn hyn ar y niferoedd sy'n cymryd rhan, a sut mae hyn wedi dylanwadu ar y dyraniadau yng nghyllideb 2016-17;
- pa waith a gyflawnwyd gennych i fonitro a lliniaru effaith y gostyngiad yng nghyllid llywodraeth leol ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol o fewn maes eich portffolio (e.e. gwasanaethau llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau; gwasanaethau chwaraeon a hamdden lleol; sefydliadau llai a sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio ym meysydd yr amgylchedd hanesyddol a'r celfyddydau).

Ar gyfer pob polisi, fel y bo'n briodol, hoffai'r Pwyllgor weld:

- manylion am gostau gweithredu'r polisïau hyn yn ystod cyfnod y gyllideb ddrafft a / neu unrhyw waith a wnaed i asesu'r costau hynny;
- gwybodaeth ynglŷn â sut y bwriedir monitro a gwerthuso gweithrediad y polisi, a'r canlyniadau cysylltiedig, i ddangos gwerth am arian.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i weld sut y mae cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac ystyriaeth i'r Gymraeg wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.

### *Gwariant ataliol*

Fel y llynedd, mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn trafod gwariant ataliol fel rhan o'i waith craffu ar gyllideb ddrafft 2016-17. Y diffiniad o wariant ataliol a fabwysiedir i'r diben hwn yw:

> *...gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac sy'n lleddfu'r galw am wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar, a thrwy hynny sicrhau gwell canlyniadau a gwerth am arian.*

Gan gofio'r diffiniad hwnnw, hoffai'r Pwyllgor gael gwybodaeth am y canlynol:

- pa gyfran o'r gyllideb Diwylliant a Chwaraeon a ddyrannwyd ar gyfer camau gwariant ataliol;
- manylion am bolisïau neu raglenni penodol yn eich portffolio, sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn, y bwriedir iddynt fod yn ataliol; a
- sut y caiff gwerth am arian rhaglenni o'r fath ei werthuso, gan ganolbwyntio'n arbennig ar beth yw'r mewnbynnau penodol a'r canlyniadau a fwriedir.

### *Darparu ar gyfer deddfwriaeth*

Hoffai'r Pwyllgor hefyd weld:

- gwybodaeth am y graddau y mae unrhyw ddeddfwriaeth Gymreig sydd wedi'i phasio, sydd wrthi'n cael ei phasio, neu sydd wedi'i chynllunio yn y rhaglen ddeddfwriaethol, yn debygol o gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar eich portffolio ym mlwyddyn ariannol 2016-17, yn benodol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).
- gwybodaeth am yr effaith a geir ar y gyllideb gan unrhyw ddarnau o ddeddfwriaeth y DU yn eich maes portffolio.